# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd A Thrafnidiaeth

## EDT2 04-05(p1)

Dyddiad: 9 Mawrth 2005
Amser: 9:00 - 12.30
Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Teitl: Y Diweddaraf gan Swyddogion Uned Cynllunio Gofodol Cymru

## Cynllun Gofodol Cymru – Y Diweddaraf gan Swyddogion Uned Cynllunio Gofodol Cymru

### Pwrpas

1. Rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar hynt datblygiad y cynllun a sut yr ydym yn ymgysylltu â'r Sector Busnes.

### Crynodeb

2. Yn dilyn ei fabwysiadu gan y Cynulliad, mae gweithdai'n cael eu cynnal ledled Cymru. Trefnwyd seminarau penodol gyda'r Sector Busnes ar gyfer 8 a 22 Mawrth.

### Amserlen

3. Cynllunnir gweithdai'r Cynllun Gofodol ar gyfer mis Ionawr a Chwefror gyda'r nod o gael rhaglen waith y cytunwyd arni erbyn haf 2005.

### Cefndir

4. Mabwysiadwyd Cynllun Gofodol Cymru gan y Cynulliad ar 17 Tachwedd 2004. Mae'r ymateb allanol iddo wedi bod yn gadarnhaol, yn cynnwys ymateb y sector preifat, sy'n ei ystyried yn welliant ar y fersiwn drafft, gan adlewyrchu gwerth yr ymgynghoriad. Mae awydd i fwrw ymlaen â'r cynllun, er bod angen gwell eglurhad o'i strwythurau ategol. Dosbarthwyd copïau caled o'r polisi o Ionawr 2005 ymlaen.

5. Mae gan yr ymagwedd hon botensial sylweddol i wella gwaith tîm yn ardaloedd gwahanol Cymru mewn ffyrdd sy'n helpu'r cynnydd tuag at Gymru: Gwlad Well - yn cynnwys Creu'r Cysylltiadau a'r Strategaeth Leoli. Mae ganddi'r potensial i fod yn llwyfan ar y cyd gyda sefydliadau partner ar gyfer

defnyddio cronfeydd strwythurol ar ôl 2006 mewn ffordd wedi'i thargedu. I wneud hyn, mae i'r Cynllun dau linyn allweddol: camau gweithredu ar lefel Genedlaethol a lefel ardaloedd.

6. Amlinellir camau gweithredu cenedlaethol mewn themâu: Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy, Hyrwyddo Economi Gynaliadwy, Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd, Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy a Pharchu Natur Unigryw Cymru. Mae'r cynllun yn gosod amcanion ar gyfer pob un o'r themâu hyn, yn esbonio sut y byddant yn llunio gweithgareddau presennol a disgrifio pa waith ychwanegol sydd ei angen.

7. Amlinellir camau gweithredol i ardaloedd fel camau sydd angen eu cymryd drwy gydweithio'n lleol, a chamau gweithredu cenedlaethol sydd o berthnasedd arbennig. Cytuno ar raglenni gweithredu lleol wedi'u blaenoriaethu erbyn haf 2005 yw'r garreg filltir allweddol gyntaf.

## Statws presennol a'r camau nesaf

8. Eir ati ar hyn o bryd i sefydlu strwythurau a phrosesau i symud ymlaen â'r gwaith. Cynhaliwyd cyfres o weithdai ym mhob ardal, dan arweiniad Gweinidogion Is- Bwyllgor y Cabinet ar y Cynllun Gofodol a Datblygu Cynaliadwy, yn ystod mis Ionawr a Chwefror 2005. Mynychodd dros 400 o bobl y digwyddiadau hyn, yn bennaf o'r sector cyhoeddus ond hefyd o'r sectorau preifat a gwirfoddol.

9. Bydd Sue Essex AC yn cadeirio Grwp Llywio Cenedlaethol, a fydd yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, er mwyn cydlynu camau gweithredu yn gyffredinol. Bydd yn cymeradwyo rhaglenni gweithredu ardal a ddatblygir yn lleol drwy'r Grwpiau Cyfeirio Ardal Gweinidogol y bydd y Gweinidog yn eu hyrwyddo. (Sue Essex AC: Gogledd Ddwyrain a Gogledd Orllewin; Carwyn Jones AC: Canol; Andrew Davies AC: De Ddwyrain a Sir Benfro; Jane Davidson: Bae Abertawe).

10. Bydd uwch swyddogion (Huw Brodie a Matthew Quinn i ddechrau) yn goruchwylio strwythurau rheoli prosiect ar sail ardaloedd i ddatblygu rhaglenni gweithredu ardal drafft a'u gweithrediad dilynol. Caiff cydlynwyr rhaglen, wedi eu hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru, eu penodi ym mhob ardal i gefnogi'r gwaith.

11. Mae'r Adran dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth eisoes wedi bod yn defnyddio'r Cynllun Gofodol: wrth lunio gwaith menter Blaenau'r Cymoedd, lle y dangoswyd manteision gweithio traws-sector i faterion arwyneb allweddol yn y sesiwn waith gyntaf; wrth gysoni'r Adolygiad o Drafnidiaeth; wrth lunio Cynllun Busnes a strategaeth eiddo'r WDA; wrth bennu cwmpas gwaith diweddaru Cymru'n Ennill ac mewn trafodaethau ar gronfeydd strwythurol ar ôl 2006.

12. Caiff offeryn arfarnu ei ddatblygu, i'w ddefnyddio gyda'r Porth i Bolisïau, i arwain gwaith yr Adrannau wrth lunio polisi ac i asesu'r Fframweithiau Gweithredu Ardal wrth iddynt ymddangos.

## Ymgysylltu â'r Sector Preifat

13. Cynghorir yr Uned Cynllunio Gofodol gan Fwrdd Rheoli o randdeiliaid allanol sy’n cynnwys Cydffederasiwn Diwydiant Cymru a Chyngor y Diwydiant Adeiladu ymysg eraill.

14. Gan weithio gyda Chydffederasiwn Diwydiant Prydain, Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig, Siambrau Masnach a Sefydliad Brenhinol y Cynllunwyr Trefol, trefnwyd seminarau brecwast wedi eu hanelu’n benodol at fusnesau ar gyfer 8 a 22 Mawrth 2005 yn y De a’r Gogledd yn y drefn honno.

15. Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain wedi cynnig ymgysylltu â ni yn benodol ar ddatblygu fframwaith arfarnu a monitro. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ym mis Ionawr 2005.

16. Bydd yr holl strwythurau a sefydlir (Grwpiau Cyfeirio Ardal Gweinidogol, rheoli rhaglenni Ardal, y Grwp Llywio Cenedlaethol) yn cynnwys y sector preifat yn benodol.

## Goblygiadau ariannol

17. Daw adnoddau’r gwaith o ddarpariaethau ariannol presennol.

## Cydymffurfio, Goblygiadau Ariannol ac Effeithiau Eraill

18. Mae’r gwaith o baratoi’r Cynllun yn dod o dan awdurdod Adran 40 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 sy’n caniatáu i’r Cynulliad Cenedlaethol wneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso arfer unrhyw un o’i swyddogaethau, neu sy’n gydnaws â, neu sy’n atodol i hynny gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud â chynllunio. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gosod dyletswydd benodol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gofodol. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn codi o baratoi Cynllun Gofodol Cymru.

## Themau Trawsbynciol

19. Mae Cynllun Gofodol Cymru yn gyfle i roi persbectif gofodol ar gyfer datblygu a gweithredu polisi. Mae ganddo berthynas glir â Chynllun Datblygu Cynaliadwy’r Cynulliad a pholisïau a strategaethau eraill. Bydd hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad y Cynulliad i fynd i’r afael ag anfantais gymdeithasol a hyrwyddo cyfle cyfartal.

## Cam Gweithredu ar Gyfer y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

20. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r papur hwn ac i’w ddefnyddio fel canolbwynt ar gyfer trafodaeth.

### Uned Cynllunio Gofodol Cymru